| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad** | **3 Mawrth 2016** |
| **Teitl** | **Adolygiad Blynyddol - Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Mabwysiadu Polisi Tal y Cyngor ar gyfer 2016/17** |
| **Awdur** | **Dilwyn Owen Williams** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |

**CEFNDIR**

1 Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2 Pan yn mabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn

3 Yn sgîl hynny ac yn unol â threfniadau sydd wedi'u gweithredu yn y cyfamser, bu i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion y Polisi ar y 25 o Chwefror 2016. Cyflwynir argymhelliad y Pwyllgor i fabwysiadu Polisi Tal ar gyfer 2016/17 i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor llawn.

**PRIF SWYDDOGION**

4 Y llynedd, adroddwyd bod nifer o gyfrifoldebau wedi'u dyrannu o'r newydd i rai Penaethiaid Adran yn sgil diddymu swyddi Pennaeth Gofal Cwsmer, Pennaeth Cyfreithiol, un swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol a chyfuno y cyn-swyddi Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Strategol a Gwella. Arfarnwyd y swyddi a ymgymerodd â'r cyfrifoldebau hynny a bu i'r Cyngor dderbyn argymhelliad y Pwyllgor hwn i newid band cyflog y Pennaeth Cyllid o ganlyniad.

5 Nid oes newidiadau pellach i gyfrifoldebau ar lefel Penaethiaid Adran a Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi'u cyflwyno yn ystod 2015/16 ac nid oes felly arfarniad o'r newydd wedi'i gynnal ar gyfer 2016/17. Ar ôl dweud hynny, mae'r polisi presennol yn nodi bod cyflogau Prif Swyddogion i'w meincnodi yn erbyn y farchnad ac yn wyneb symudiadau yn y farchnad mae angen ystyried amseriad unrhyw ddiweddaru. Fodd bynnag, yn wyneb yr hinsawdd gyllidol yr ydym yn ei wynebu, ac effaith hynny ar nifer o staff y Cyngor, ni fyddai'n amserol i

gynnal yr ymarferiad hwnnw eleni. Mae'r mater wedi'i drafod gyda'r Penaethiaid a'r Cyfarwyddwyr ac maent yn unfrydol gytūn nad yw'n addas adolygu'r meincnodau ar hyn o bryd.

6 Mae'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau ar gyfer Prif Weithredwyr wedi cynnig codiad cyflog o 1% y flwyddyn, am y ddwy flwyddyn ariannol nesaf, i Brif Swyddogion ac i Brif Weithredwyr. Nid yw'r cynnig wedi'i dderbyn hyd yma.

7 Mae diwygiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006, ddaeth i rym ar y 1af o Orffennaf, 2014, yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod perthnasol bennu lefel y cyflog a delir i brif swyddog ac unrhyw newid yn lefel y cyflog hwnnw. Mae hyn yn cynnwys unrhyw godiadau cyflog y mae'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau yn eu sicrhau yn genedlaethol.

8 Mae hawl cytundebol gan y Prif Swyddogion a'r Prif Weithredwr i'r codiadau cyflog a sicrheir yn genedlaethol ac i'r pwrpas hwnnw, mae'r drafft o'r polisi tâl yn datgan, **"Mae Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y JNC gyda hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y JNC a bydd y Cyngor felly yn talu'r codiadau hyn pan y'u dyfernir yn unol a gofynion cytundebol presennol"**. Golyga hyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog a ddyfernir yn genedlaethol yn sgil mabwysiadu'r polisi tâl yn flynyddol.

**CYFLOGAU ISAF**

9 Bu i'r Cyngor benderfynu sefydlu ei isafswm cyflog ar sail pwynt 8 o fewn y strwythur tâl cenedlaethol yn dilyn adolygiad o'r Polisi Tâl ar gyfer 2015/16 ac hynny mewn ymgais i symud yn agosach at y "Cyflog Byw", yn unol â diffiniad y Sefydliad Cyflog Byw. Mae pwynt 8 yn bresennol yn £7.19 yr awr (o'i gymharu â £8.25 yr awr adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw).

10 Yn ei ddatganiad cyllideb ar yr 8fed o Orffennaf, 2015, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ei fod am sefydlu £7.20 yr awr fel y "Cyflog Byw" oddi ar y 1af o Ebrill eleni (yn codi i £9.00 yr awr erbyn Ebrill 2020) ar gyfer gweithwyr 25 oed a hyn.

11 Mae'r Cyflogwr yn genedlaethol wedi cyflwyno cynnig i'r undebau llafur (sy'n cynrychioli gweithwyr llywodraeth leol) ar gyfer 2016/17 a 2017/18 sydd hefo pwyslais ar symud yn agosach i dalu "Cyflog Byw". Nid yw'r cynnig wedi'i dderbyn hyd yma.

12 Mae'r cynnig yn seiliedig ar godiad cyflog o 6.5% yn 2016/17 a 3.2% yn 2017/18 i'r gweithwyr hynny sydd ar y cyflog isaf o fewn y Cyngor gyda phob pwynt cyflog hyd at bwynt 17 (2016/17) a phwynt 13 (2017/18) yn derbyn codiad cyflog uwch na'r 1% sydd i'w gynnig i weddill y staff yn y naill flwyddyn a'r llall.

13 Yn wyneb y symudiadau cenedlaethol hyn i godi'r cyflogau ar y lefelau isaf yn y strwythur tâl a'r ffaith y bydd y Cyngor yn parhau i orfod adnabod yr arian i gyllido unrhyw gytundeb cenedlaethol, nid oes bwriad i argymell newid pellach yn lleol i'r isafswm cyflog ar gyfer 2016/17.

14 Bydd swyddogion y Cyngor yn parhau i gynnal trafodaethau hefo cynrychiolwyr yr undebau cydnabyddedig yn lleol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn ystyried posibiliadau i roi sylw pellach i godi isafswm cyflog y Cyngor yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD**

15 Bod y Cyngor yn cymeradwyo y Datganiad o Bolisi Tâl (Atodiad 1) ar gyfer 2016/17.